



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig GwE

Dilynwch y [ddolen hon](#) at [Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021. Mae'r cynnig wedi'i symleiddio eleni ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes sef Lles, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Digidol. Bydd eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn trafod eich anghenion Dysgu Proffesiynol gyda chi yn eich cyfarfodydd unigol ac/neu clwstwr er mwyn adnabod cynllun unigryw ar gyfer eich dalgylch.



Adnoddau Dysgu Cyfunol

Bydd llyfrgell o adnoddau dysgu cyfunol; wedi'u creu gan athrawon, ar gael yn fuan.

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [School Guide](#) | **Cymraeg** - [Gwybodaeth i ysgolion](#)


Mae tudalen wybodaeth i'ch llywodraethwyr hefyd, cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [Governors Guidance](#) | **Cymraeg** - [Canllawiau Llywodraethwyr](#)



Cyfleoedd a Rhaglenni Datblygu Proffesiynol GwE

Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth



Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ar gyfer Arweinwyr Canol

DYDDIAD CAU: 1:00YP AR 30/11/2020

Mae'r rhaglen ddatblygu hon, sy'n para blwyddyn, yn gyfle dysgu proffesiynol i arweinwyr canol ar draws Cymru.

Mae'r rhaglen ar gyfer arweinwyr canol sy'n gyfrifol am feysydd penodol ac/neu reoli staff.

Mae hon yn rhaglen genedlaethol a gydlynir gan y consortia rhanbarthol. Mae'n cael ei hardystio gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gyda chyfle am achrediad mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor.

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth a manylion ymgeisio.

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** ar gyfer unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Yn 2020-21, bydd newidiadau **sylweddol** i reoliadau Sefydlu ANG, a bydd yn bwysicach nag erioed bod pob Mentor Sefydlu ysgol (MS), ANG a Gwiriwr Allanol (GA) yn mynychu un o'r sesiynau hyfforddi/brieffio cenedlaethol. Bydd ystod o sesiynau pwrpasol ar-lein ar gyfer pob rôl.

[Dylai ysgolion enwebu MS i fynychu sesiwn hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi penodi athro fydd yn ANG ym mis Medi ar hyn o bryd, gan fod y mwyafrif o ysgolion yn cyflogi ANG ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd].

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth/am ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi.

Mae dyddiadau sesiynau hyfforddi Awdurdodau Lleol ar gyfer ANG hefyd ar gael yma, ynghyd â'r manylion cyswllt ar gyfer pob Awdurdod.

Newyddion a Gwybodaeth GwE

Sesiwn Lles Penaethiaid

[Cliciwch yma](#) i wyllo gweithdy lles diweddar ar gyfer Penaethiaid. Mae'r gweithdy 'Gofalu amdanaf fi fy hun' yn edrych ar ystyr lles a sut y gallwn greu persbectif cytbwys o ran bywyd a gwaith. Dyma'r gweithdy cyntaf mewn rhaglen lles ehangach sydd ar gael i arweinwyr a staff ysgolion.



Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Mae cymorth gweithredu ar gael drwy gyswllt fideo i **bob ysgol** yn rhanbarth GwE. Bydd y sesiynau hyn wedi'u haddasu i anghenion ysgolion, athrawon, neu staff cymorth unigol. Bydd Kaydee Owen (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw

- 9 Rhagfyr
- 6 Ionawr *
- 9 Chwefror
- 11 Mawrth

heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser ar-lein ar gyfer cyfarfod un i un : <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

Er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwylwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

***Sylwch fod y dyddiad wedi newid.**

Dosbarth Google Dysgu Cyfunol Dwyieithog

Mae dau [Ddosbarth Google](#) dysgu cyfunol dwyieithog newydd o'r enw 'Nadolig' ac 'Enwogion y Castell' wedi'u creu ar gyfer athrawon CA2. Maent yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Digidol. Mae cysylltiadau gyda modelau Dysgu Carlam sydd ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE a chyda 4 diben Cwricwlwm i Gymru.

Efallai y bydd y casgliad hwn o weithgareddau yn ddefnyddiol i chi. Nid ydynt yn themâu cydlynus, ond yn gasgliad o unedau sy'n modelu dysgu cyfunol y gallwch ddewis a dethol ohonynt. Mae'r dosbarth Nadolig yn cynnwys cyfuniad o weithgareddau digidol a thraddodiadol.

Gweler y codau ar gyfer derbyn mynediad i'r dosbarthiadau isod. Pe byddech yn dymuno copi athro o'r dosbarthiadau, mae dolon o fewn y dosbarthiadau o dan y pennawd 'Cyflwyniad'. Dilynwch y cyfarwyddiadau 'Gwneud cais am gopi athro'.

Codau'r dosbarthiadau newydd felly yw:

Nadolig / Christmas (**kei6znf**)

Enwogion yn y Castell/Celebrities in the Castle (**w2h755h**)

Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS, Headsprout, Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Anfonwch unrhyw ymholiadau i llythrenneddarhifedd@gwegogledd.cymru

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Hyfforddiant Proffesiynol ar Addysg Ariannol

Ydych chi'n dysgu disgyblion rhwng 9 a 12 oed? Mae'r prosiect Braenaru eisiau darparu datblygiad proffesiynol am ddim i ymarferwyr yn ystod 2021 i'w cefnogi i gyflwyno addysg ariannol.

Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Lleoliadau i Fyfyrrwyr CaBan

GALW AM LEOLIADAU MEWN YSGOLION I ATHRAWON CYSWLLT

Rydym yn chwilio am leoliadau i fyfyrwyr CaBan (cynradd ac uwchradd) o fis Ionawr 2021. Mae'r myfyrwyr wedi treulio'r tymor hwn yn cael hyfforddiant yn y mentrau addysgol a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac mae ganddynt y ddealltwriaeth berthnasol i gefnogi dysgu yn ystod cyfnod Covid, megis sgiliau ymchwil ac ymholi a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddysgu cyfunol a dysgu digidol.

Bydd ysgolion arweiniol a staff CaBan yn cefnogi ysgolion a mentoriaid trwy gydol y cyfnod yn yr ysgol, a bydd ysgolion yn derbyn ad-daliad ariannol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â cabanplacements@bangor.ac.uk neu tamasinecroston@gwegogledd.cymru



GRADD MEISTR RHAN-AMSER MEWN ADDYSG

Mae Prifysgol Bangor yn cynnal sesiwn 'Dewch i gyfarfod â'r Tiwtor' am 1.30pm ddydd Sul 29 Tachwedd trwy Zoom ar gyfer y rhaglen Gradd Meistr rhan-amser mewn Addysg. Rhaglen tair i bedair blynedd yw hon sy'n cynnwys dyddiau astudio yn ystod pum penwythnos bob blwyddyn.

<https://www.bangor.ac.uk/cy/courses/postgraduate-taught/astudiaethau-addysg-rhan-amser-ma>

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer y ddolen Zoom cysylltwch â Huw Phillips, Cyfarwyddwr Cwrs h.c.phillips@bangor.ac.uk

Dyfodol Byd-Eang GwE a Phartneriaid - Ieithoedd Rhyngwladol

Gweminar Ysgolion Cynradd

DYDD MERCHER, 2 RHAGFYR 2020, 16:00-17:00

Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru!

PowerLanguage for Schools - Mae PowerLanguage yn cefnogi ysgolion yr Alban i weithredu polisi iaith 1+2 y Llywodraeth, yn ogystal â nifer cynyddol o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymunwch â ni i ganfod pam!

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, dilynwch y ddolen: <https://pwlgl.link/2TVJ00l>

Ysgolion Uwchradd

GWEMINAR DYFODOL BYD-EANG GWE A PHARTNERIAID: Gwneud pob gwers ITM gyfrif!

30 Tachwedd 2020, 16:00-17:30

Manylion a dolenn gofrestru i'w cael yma.

Llwybrau at Ieithoedd Cymru

Dyma'r arlwy ddigidol y mae Llwybrau at Ieithoedd Cymru yn ei baratoi ar gyfer ysgolion uwchradd y flwyddyn academiaidd hon. Rydym yn bwriadu cynnal ein gweithgareddau i gyd yn rai rhithwir eleni, ac wrth glicio ar y cyflwyniad Sway isod fe welwch beth sydd gennym mewn golwg. Yng nghorff y cyflwyniad, mae yna arolygon sydyn, a chroesawun unrhyw sylwadau neu syniadau a fo gennych – rydym yn awyddus iawn i deilwra ein cefnogaeth i'r hyn a fyddai yn ddefnyddiol ar gyfer eich ysgolion chi yn y cyfnod heriol hwn.

<https://sway.office.com/vLT7lj00ds3mP7m1?ref=email>

Cysylltwch â ni yn uniongyrchol os hoffech chi drafod unrhyw gefnogaeth y gallwn ei chynnig i chi eleni:

info@routesintolanguagescymru.co.uk



Gwybodaeth a Chanllawiau gan Lywodraeth Cymru

Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad interim



Argymhellion ynghylch addysgu themâu yn ymwneud â chymunedau a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o fewn y cwricwlwm.

<https://llyw.cymru/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm>

Sesiwn ar Statws Gorfodol Saesneg yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) DYDD MERCHER - 25 TACHWEDD 2020 - 2:00PM



Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n casglu safbwyntiau am statws gorfodol Saesneg yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Yn unol â hyn, ein cynnig yw diwygio'r Bil i wneud Saesneg yn orfodol o 7 oed ymlaen. Byddai hyn yn golygu mai mater i ysgolion fyddai penderfynu a ddylid addysgu Saesneg cyn yr oedran hwnnw a sut i wneud hynny.

Bydd arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru yn cynnal sesiwn holi ac ateb. Anfonwch e-bost i dysg@llyw.cymru os hoffech fynychu. Efallai y bydd y sesiwn o ddiddordeb i ddirprwy/ penaethiaid, neu arweinwyr y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

Gallwch ymateb i'r arolwg yma <https://www.smartsurvey.co.uk/s/UIYLI7/?lang=515913>

DYDDIAD CAU: DYDD GWENER, 4 RHAGFYR 2020

Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2020

Eleni bydd pethau'n edrych ychydig yn wahanol, a byddwn yn dathlu'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol eleni yn rhithwir!! Bydden ni wrth ein boddau pe baech chi'n ymuno â ni gyda'ch ffrindiau a'ch teulu gartref i ddathlu'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol, a phawb sy'n gweithio ym myd addysg. Gwnewch banded neu codwch wydr i'n gweithwyr proffesiynol addysgu anhygoel.

Gallwch wyllo'r seremoni ar y ddwy sianel hon:

<https://www.youtube.com/c/AddysgCymruEducationWales/> / www.facebook.com/addysgcymru

@6pm, 29 Tachwedd 2020

Helpwch ni i roi cydnabyddiaeth haeddiannol i'r prosiectau a'r unigolion anhygoel hyn am eu cyfraniad, eu gwaith caled a'u hymroddiad eithriadol ledled Cymru.

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Pen i Ben

BOB DYDD MERCHER YN YSTOD TYMOR YR YSGOL: 11:00-11:30

Beth ydych chi wedi'i wneud yn ddiweddar i gefnogi eich lles eich hun?

Ymunwch â man lles wythnosol yr Academi Arweinyddiaeth i Benaethiaid.

Man diogel ar-lein i rannu a gwranddo. Nid oes angen cyfrannu na pharatoi unrhyw beth.

Grwpiau bach o 2 - 3 Pennaeth gydag aelod o'r Academi Arweinyddiaeth.

Anfonwch e-bost i post@agaa.cymru i dderbyn dolen a anfonir y diwrnod cyn y cyfarfod.



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales



Gwahoddiad i Weminar Cwricwlwm Adferiad



DYDD MERCHER - 2 RHAGFYR 2020 - 16:00-17:30

Dymuna'r *Schools Partnership Programme* eich gwahodd i'w cyfarfod cyntaf yn eu cyfres o gyfarfodydd cenedlaethol tymhorol, dan y teitl:

Cefnogi arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol drwy gydweithio ac adolygu gan gymheiriaid, yn sgil cyfnod o darfu ar ysgolion.

[Cliciwch yma am ragor o fanylion](#) [dolen allanol Saesneg]

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig: Cystadleuaeth Ddigidol Newydd



Hoffai Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig wahodd eich ysgol i gymryd rhan yn y Fenter yn 2021, a fydd ar ffurf cystadleuaeth ddigidol. Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Cymraeg fel Pwnc Safon Uwch



Beth wyt ti eisiau ei wybod am astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch?

Dilyna [@Cymraeg](#) neu glicio [yma](#) i weld mwy.

Technocamps

technoteach



RHAGLEN ACHREDU DPP AR GYFER YSGOLION CYNRADD AC ATHRAWON

Nod y sesiynau hyn yw gwella gwybodaeth athrawon am Gyfrifiadureg a Meddwl Cyfrifiannol, cymhwyso'r sgiliau hyn yn yr ystafell ddosbarth ac yn strategol ar draws yr ysgol. Cysylltir hyn â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol gan weithio ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd y cwricwlwm newydd.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

GWEITHDAI RHITHWIR I YSGOLION

Mae Technocamps yn cynnig gweithdai Rhithwir Cyfrifiadureg am ddim i ysgolion yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Cynnal Coetir

Mae 'Cynnal Coetir' yn brosiect graddfa tirwedd sbectrw m eang a gynhelir gan *The Game and Wildlife Conservation Trust Cymru* (GWCT), ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cwmpasu 23,500 hectar ar draws Sir Ddinbych a rhannau o Gonwy.

Sesiynau Addysgol

Ceir rhagor o fanylion am y prosiect [yma](#)

Lee Oliver, Rheolwr Prosiect GWCT Cymru loliver@gwct.org.uk 07984 016102.



Helpwch eich Plentyn i Ddysgu Darllen

CWRS AR-LEIN AC AM DDIM I RIENI

Bydd y cwrs ar-lein hwn yn helpu rhieni i fagu hyder i ddefnyddio rhywfaint o dechnegau sylfaenol i helpu eu plentyn i ddysgu darllen. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o strategaethau llythrennedd a sut i'w defnyddio gartref, yn arddangos rhywfaint o weithgareddau a gemau difyr ac yn trafod adnoddau cartref a masnachol i helpu plentyn i ddysgu.

- **Cynhelir cyrsiau ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr**

Am fwy o wybodaeth cliciwch yma: <https://www.adultlearning.wales/cym/cwrs/40552>

- **Penaethiaid - Gellir trefnu cyrsiau pwrpasol ar gyfer grŵp o rieni o'ch ysgol neu glwstwr.**

Anfonwch e-bost at Jane Watkins am fanylion: jane.watkins@adultlearning.wales

Unrhyw gwestiwn? Anfonwch e-bost at jane.watkins@addysgoedolion.cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru 2021

Mae BookTrust Cymru yn gwahodd beirdd, awduron, cerddorion a pherfformwyr i'w helpu i greu cynnwys newydd ac arbennig ar gyfer Amser Rhigwm Mawr Cymru 2021.

Maen nhw'n cynnig hyd at bedwar comisiwn fydd yn werth £500 yr un.

Dyddiad cau: 30/11/20

<https://www.booktrust.org.uk/about-us/work-at-booktrust/>

post@gwegogledd.cymru

